Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru

Welsh Government's Wales and Africa Grant Scheme

# Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica
# 2022/25 Cylch 3

| Enw'r mudiad | Disgrifiad 50 gair | Lleoliad | Cais am grant |
|---|---|---|---|
| **The Troy Trust (Bees for Development)** | Bydd y prosiect yn grymuso menywod drwy roi cyfle busnes cyfalaf isel cynaliadwy iddyn nhw – cadw gwenyn – er mwyn cynhyrchu incwm, gwella eu llesiant a rhoi cyfleoedd bywyd i'w plant. Byddwn ni'n rhoi sgiliau technegol a busnes i gefnogi mentrau llwyddiannus ac yn gweithio'n galed i unioni'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn y sector hwn. | Sir Fynwy, Powys, Merthyr Tudful, Casnewydd, Caerdydd a Blaenau Gwent | £25,000.00 |
| **Interburns** | Gofal (Adsefydlu) Uwch yn dilyn Llosgiadau a gyflwynir i 35 o therapyddion galwedigaethol a chorfforol o bob rhan o Affrica. Nod yr hyfforddiant, sy'n ymarferol a chyfranogol tu hwnt, yw adeiladu sgiliau a meithrin arweinyddiaeth mewn cenhedlaeth newydd o arbenigwyr adsefydlu yn dilyn llosgiadau yn yr ardal. Bydd yn cael ei arwain gan therapydd o Ghana, gyda chefnogaeth cyfadran o wirfoddolwyr rhyngwladol. | Caerdydd | £25,000.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Care for Uganda** | Dros y deng mlynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi darparu wyth ambiwlans ar gyfer ardal Lowero. Rydyn ni'n parhau i gyllido'r gwasanaeth, er bod y rheolaeth wedi'i throsglwyddo i swyddogion lleol. Prosiect peilot yw hwn i sicrhau bod gan y swyddogion lleol y systemau a'r prosesau i gyllido'r gwasanaeth ar gyfer dau ambiwlans newydd, gyda'r nod o drosglwyddo'r cyfrifoldeb ar gyfer yr holl wasanaeth iddyn nhw yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y prosiect cyfan. | Bro Morgannwg ac Abertawe | £14,429.00 |
| **From Wales** | Ar y cyfraddau presennol o ddatgoedwigo, ni fydd gan Malawi goed erbyn 2079. Mae datgoedwigo yn peri i gnydau fethu, yn achosi tirlithriadau a llifogydd ac yn difetha bioamrywiaeth. Bydd y Prosiect Coed Teuluol yn plannu 40,000 o goed, gan gefnogi 900 o bobl i wneud bywoliaethau cynaliadwy sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Bydd yn darparu mynediad gwell at fwyd, lloches a ffynonellau tanwydd. | Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro | £15,000.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tools for Self Reliance Cymru** | Mae'r prosiect yn cynnig offer a chyrsiau hyfforddi ardystiedig dwys i grefftwyr ifanc mewn amrediad eang o grefftau, sy'n eu helpu i wella eu sgiliau a'u cyfleoedd a chynnal eu bywoliaethau. | Powys | £19,368.60 |
| **Life for African Mothers** | Byddwn ni'n brwydro marwolaethau ymhlith mamau yn Sierra Leone drwy roi hyfforddiant proffesiynol ychwanegol i 80 o fydwragedd a gweithwyr iechyd a datblygu sgiliau hyfforddwyr lleol. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn Sierra Leone ar asesiad anghenion newydd a ffyrdd newydd o werthuso ein gwaith, ac yn gwneud hynny mewn modd cyfranogol. | Caerdydd | £23,000.00 |